



# FFORWM DEFNYDDWYR OGWEN

## CYLCH GORCHWYL

Yn dilyn sefydlu Partneriaeth i reoli'r GNG Cwm Idwal ac ail-ddatblygu cyfleusterau yn Ogwen yn 2012/13, cafodd ei argymhell y dylid sefydlu Fforwm Defnyddwyr. Mae gan y Fforwm rôl sy'n cynnwys cyfrannu at welliannau parhaus mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar safle Ogwen.

### 1. RÔL ARFAETHEDIG

1.1 Bydd y Fforwm Defnyddwyr yn bodoli er mwyn:

- Darparu llwyfan ar gyfer defnyddwyr i rannu eu barn ar safon y gwasanaethau a ddarperir o'r safle.
- Rhoi cyfle i ddefnyddwyr i gyfrannu at ddatblygiad strategol y safle ac yn ehangach o fewn y dyffryn.
- Hyrwyddo arfer da rhwng defnyddwyr a darparwyr ar y safle.
- I wneud argymhellion ar safon ac ystod y gwasanaeth a ddarperir ar y safle ac yn ehangach yn y dyffryn.

1.2 Bydd barn y Fforwm defnyddwyr yn hysbysu / bwydo gwybodaeth i ddarparwyr ynghylch unrhyw wasanaethau a allai fod angen eu dirwyn i ben, eu cynnal, eu gwella neu eu datblygu.

1.3 Ni fydd y Fforwm ddefnyddwyr yn gwneud penderfyniadau ar faterion a fydd a wnelo rheoli'r safle, trefniadau partneriaid, polisïau na thariffau (parcio car / ciosg).

### 2. AELODAETH ARFAETHEDIG

2.1 Bydd yr aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth yn yr ardal. Awgrymir y canlynol fel aelodau posibl:

**Defnyddwyr:**

Cyngor Cymuned  
Tîm Achub Mynydd Ogwen  
Ysgol Gynradd Leol  
Beicwyr  
Cymdeithas Edward Llwyd  
Fforwm Cydraddoldeb Anabled

Cyngor Mynydd Prydain  
Sefydliadau Addysgol Awyr Agored  
Pysgotwyr  
Cymdeithas Eryri  
Prifysgol Bangor  
Ac yn y blaen.

**Darparwyr:**

CCGC YG Bwthyn Ogwen Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid  
Tenant y Ciosg APCE (Wardeiniaid, Addysg a Dehongli, Eiddo)  
Cyngor Gwynedd (Priffyrdd a Chludiant)

Argymhellir capio'r aelodaeth i 20 o aelodau.

**3. CADEIRYDD A CHYMORTH YSGRIFENYDDOL**

- 3.1 Grŵp Llywio Partneriaeth Ogwen fydd yn darparu'r cymorth ysgrifenyddol a'r Cadeirydd. Bydd y cyfarfodydd a'r papurau yn ddwyieithog. Bydd cofnodion y Fforwm ar gael ar y we.

**4. AMLDER Y CYFARFODYDD**

- 4.1 Cynhelir dau gyfarfod y flwyddyn, cyn ac ar ôl tymor yr haf. Bydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cylchredeg oddeutu 14 diwrnod cyn unrhyw gyfarfod. Dylai'r Fforwm gytuno ar ddyddiadau ei gyfarfodydd.

**5. PERTHYNAS AG ERAILL**

- 5.1 Adroddir am y sylwadau a'r argymhellion i Grŵp Llywio Partneriaeth Ogwen. Cyfeirir eitemau penodol at yr unigolion neu'r sefydliadau perthnasol.